# Cenn@d

CHWEFROR 5 2025 YN CYNNWYS *Y GOLEUAD* A *SEREN CYMRU* RHIF 206


## Lansio elusen Gristnogol newydd: 43:19


Band addoli


Deb Stammers ac Andy Hughes


Gweddïo dros Gymru



Andy a Rachel Hughes

Ers dros 35 mlynedd bu Andy a Rachel Hughes o Landderfel, ger y Bala, yn gweithio'n ddiwyd a ffyddlon yn cefnogi gwaith plant ac ieuenctid mewn eglwysi ledled Cymru. Fe dreulion nhw'r cyfnod hwnnw'n gweithio i elusen Saint y Gymuned (Croesgadwyr oedd enw'r elusen tan iddyn nhw newid yr enw 15 mlynedd yn ôl). Ymhlith eu rhaglen waith flynyddol yr oedd cynnal gwersylloedd fforddiadwy i deuluoedd yn hollbwysig. Dros y blynyddoedd fe wnaeth miloedd o blant a'u rhieini fwynhau amser yn y gwersylloedd hynny, a heb ymdrech Andy a Rachel, mae'n debygol na fyddai llawer o'r teuluoedd hynny wedi cael unrhyw wyliau yr haf hwnnw.

Cyfraniad mawr arall gan Andy yw iddo gyfansoddi degau o ganeuon Cristnogol i blant, gan eu recordio a'u ffilmio, er mwyn i ysgolion Sul eu defnyddio. Mae modd eu gweld ar wefan ysgolsul.com drwy glicio ar y ddolen: https://gair.cymru/caneuon-cristnogol-i-blant.

Bu Andy hefyd yn brysur adeg y pandemig yn trefnu clwb plant wythnosol drwy'r post, a defnyddiwyd y rhain yn helaeth gan ysgolion Sul ar hyd a lled y wlad. Cyfraniad arall oedd trefnu taith sioe bypedau flynyddol i ysgolion cynradd adeg y Nadolig er mwyn cyflwyno neges y geni. Eto, mae yna filoedd ar filoedd o blant erbyn hyn wedi elwa o weld y cyflwyniadau bywiog hynny. Diben yr elusen oedd cyrraedd plant y tu allan i'r eglwys gyda'r newyddion da am Iesu, a thros y blynyddoedd bu Andy a Rachel yn allweddol yn y gwaith o sefydlu nifer o glybiau plant mewn capeli ac eglwysi. Andy oedd wyneb cyhoeddus yr elusen, tra oedd Rachel yn gweithio'n ddiwyd yn y cefndir yn gweinyddu gwaith yr elusen yng Nghymru.

Fodd bynnag, rai misoedd yn ôl, hysbyswyd y ddau ohonynt y byddai eu swyddi yn dod i ben ddiwedd y flwyddyn, wrth i Saint y Gymuned benderfynu cael gwared ar eu gweithwyr ar lawr daear a chanoli eu gwaith ar eu swyddfa yn Lloegr. Wedi i Andy a Rachel rannu'r neges hon â'u cefnogwyr yng Nghymru, er y sioc a'r siom, daeth negeseuon yn ôl yn cynnig gobaith ac anogaeth.

Ar chwe achlysur gwahanol fe wnaethon nhw dderbyn adnodau – yr un adnod o chwe chyfeiriad gwahanol. Adnod o Eseia oedd hon, sef 43:19: 'Edrychwch, dw i'n gwneud rhywbeth newydd! Mae ar fin digwydd! Ydych chi ddim yn ei weld? Dw i'n mynd i agor ffordd drwy'r anialwch, a rhoi afonydd yn y tir diffaith' (beibl.net). Gyda diolch i'r cefnogwyr a'r gwirfoddolwyr ar lawr gwlad yng Nghymru, aed ati i sefydlu elusen newydd er mwyn rhyddhau a chynnal y gwaith pwysig hwn oedd wedi cael ei gyflawni dros 35 mlynedd gan Andy a Rachel. 43:19 fyddai'r enw ar yr elusen newydd hon.

Dydd Sadwrn, 19 Ionawr, calondid mawr oedd gweld eglwys 'Kinmel Bay Church' yn orlawn. Roedd dros 150 wedi dod ynghyd o bob rhan o Gymru a thu hwnt i lansio a gweddïo dros y gwaith newydd hwn. Braint oedd cael bod yno i glywed am rai o'r cynlluniau sydd ar y gweill. Pwysleisiwyd mai yno i wasanaethu oedden nhw, a'u bod yn awyddus i gydweithio a chefnogi gwaith sy'n bodoli eisoes. Mae sawl cynllun newydd ar y gweill mewn cydweithrediad â Chyngor yr Ysgolion Sul, a dwi'n ddiolchgar am y cydweithio hapus hwn.

Cafwyd sawl stori'n dangos lle mae gwaith Andy a Rachel wedi gwneud gwahaniaeth. Yn eu plith cafwyd gair gan y Parch. Deb Stammers, gweinidog gyda'r Bedyddwyr yn ardal Caergybi, a rannodd am y gefnogaeth a gafwyd i sefydlu clwb plant newydd yn Llannerch-y-medd, a hynny trwy ddwyn pum cynulleidfa Fedyddiedig at ei gilydd i gydweithio. Treuliwyd amser yn gweddio dros Gymru, dros Andy a Rachel, cyn eu comisiynu fel gweithwyr i wasanaethu yng Nghymru. Dymunwn bob bendith a llwyddiant ar eu gwaith.

Os hoffech gysylltu â 43:19, yna gallwch e-bostio rachelhughes4319@gmail.com neu ffonio 07766 069415.

*Aled Davies*



Yn llinach y proffwydi
Tudalen 4

Fy wythnosau cyntaf yn Japan
Tudalen 5

O'r galon
Tudalen 7

# Pynciau Perthnasol – colofn Rosa Hunt

## Ofni'r Efengyl



Yn fy mhrofiad i, mae pobl tu allan i'r eglwys yn fwy tebygol o wneud sbort am yr efengyl Gristnogol na'i hofni! Ond dwi wedi cael dau brofiad gwahanol yn ddiweddar oedd yn datgelu ymateb annisgwyl iawn i Iesu Grist.

Yr un cyntaf oedd y profiad o wrando ar ddyn ifanc, Timothy (ddim ei enw go iawn), yn annerch Cristnogion o Gymru yn y Senedd, mewn digwyddiad a drefnwyd gan yr elusen Open Doors. Tyfodd Timothy i fyny yng Ngogledd Corea a chafodd ei ddysgu i fod yn ofnus o Gristnogion.

Cafodd Timothy ei brofiad cyntaf o fywyd y tu allan i Ogledd Corea pan oedd yn ei arddegau hwyr. Aeth dros afon Tumen sy'n gwahanu Gogledd Corea a Tsieina a cherdded drwy'r tir mynyddig, ac fe'i cafodd ei hun mewn dinas Tsieineaidd. Roedd Timothy wedi dod i Tsieina am un prif reswm: i oroesi. Roedd wedi tyfu i fyny yn blentyn stryd yn ystod newyn creulon y 1990au, ac ni chaniatawyd iddo gael swydd nac ymuno â'r fyddin oherwydd ei statws yng Ngogledd Corea. Doedd ganddo ddim gobaith am y dyfodol, a'r unig lwybr ymlaen a welai oedd gadael Gogledd Corea a cheisio gweld a allai ddod o hyd i fywyd yn rhywle arall. Yr hyn nad oedd yn ei ddisgwyl oedd y byddai'r penderfyniad yn ei arwain at Iesu.

Pan gyrhaeddodd Timothy Tsieina, nid oedd yn siŵr ble y byddai'n aros na beth fyddai'n ei wneud. Ond yn fuan cyfarfu â rhywun a gynigiodd iddo aros mewn fflat. Yn ddiweddarach, darganfu fod hwn yn dŷ diogel Cristnogol oedd yn cael ei redeg gan genhadwr. Y peth cyntaf a welodd pan ddaeth i mewn i'r cartref oedd Beibl a chroes. A dyna a'i dychrynodd. "Fe wnaeth fy nychryn i oherwydd, yn ôl beth roeddwn i wedi'i ddysgu yng Ngogledd Corea, mae'r groes yn golygu melltith," mae'n cofio. "Yng Ngogledd Corea, mae Cristnogaeth ei hun yn dod oddi wrth y gelyn, sy'n defnyddio Cristnogaeth fel rhyw fath o arf. Grŵp ysbïo yw Cristnogion yn bennaf. Dyna a ddysgwyd i mi yng Ngogledd Corea: pan oedd cenhadon a gweinidogion yn arfer dod i Gorea, roedden nhw'n herwgipio ac yn masnachu plant." Roedd cymaint o ofn arno fel nad arhosodd yn y cartref yn hir. Cafodd ei ddal a'i ddychwelyd i'w famwlad, a'i holi gan yr heddlu cudd.

Ond, dyma beth oedd yn rhyfeddol i fi: yr hyn yr oedd yr heddlu'n poeni amdano fwyaf oedd unrhyw gysylltiad â chenhadon Cristnogol, eglwysi neu'r Beibl yn ystod ei amser tu allan i'r wlad. Mae'n amlwg fod llywodraeth Gogledd Corea yn ofni'r gobaith, y cariad a'r rhyddid y mae Iesu Grist yn eu cynnig i bawb sy'n clywed yr efengyl.

Wedyn, yr wythnos diwethaf ces i'r fraint o wrando ar ddyn o Rwsia sy'n gwneud ymchwil i brofiadau gweinidogion y Bedyddwyr yn Rwsia yn yr ugeinfed ganrif. Mae llawer o'r dogfennau cyfrinachol o archifau'r Undeb Sofietaidd ar gael i'r cyhoedd erbyn hyn, ac mae'r myfyriwr wedi darganfod dogfennau sy'n dangos, ar un cyfnod, nad oedd y wladwriaeth am erlid gweinidogion y Bedyddwyr (er, yn anffodus, cafodd llawer o Fedyddwyr eu carcharu a'u lladd cyn hynny). Pam? Oherwydd eu bod yn dysgu bod erledigaeth yn achosi twf yn y ffydd, ac roedd arnyn nhw ofn yn barod o ddylanwad eglwysi'r Bedyddwyr yn Rwsia. Felly, yn hytrach nag erlid, maen nhw wedi trio strategaethau gwahanol fel gwahardd oedolion rhag mynd â phlant a phobl ifanc i'r eglwys. Fe wnaeth eglwysi'r ddinas ymateb drwy anfon eu pobl ifanc i eglwysi yng nghefn gwlad lle roedd hi'n llawer llai tebygol fod ysbïwyr y KGB yno. Ac yna, yng nghefn gwlad, roedd y bobl ifanc yn pregethu ac yn annog ei gilydd.

Mae'r ddwy stori yma'n dangos i mi fod nerth go iawn gan efengyl Iesu Grist. Mae'r grymoedd sy'n gwrthwynebu gwerthoedd yr efengyl, fel gwirionedd, cariad, maddeuant a gobaith, yn gweld y nerth yma, ac maen nhw'n ei ofni. Dylai hynny ddysgu gwers i ni yma yn y Gorllewin lle rydym yn teimlo'n rhy aml fod neges yr efengyl yn rhy wan i gystadlu â negeseuon deniadol y byd tu allan i'r eglwys. Mae neges yr efengyl yn dal i fod â nerth i achub a rhyddhau pobl. Haleliwia!

# Pedair Cenhedlaeth o Flaenoriaid: Teulu Lewis, Capel Madog

Ddydd Iau, 23 Ionawr 2025, yng Nghapel y Morfa, Aberystwyth, ordeiniwyd Nia Angharad Lewis, Cwm Main, yn flaenores yng nghapel Madog. Mae Angharad hefyd yn ysgrifennydd yr eglwys ac yn organydd yno.

Merch y diweddar John Tegwyn Lewis, Rhosgoch, yw Angharad. Bu ei thad yn flaenor ac yn ysgrifennydd am dros hanner can mlynedd (1967–2023).

Roedd yntau'n fab i William John Lewis, Rhosgoch, a fu'n flaenor ac yn ysgrifennydd am gyfnod maith hefyd (1947–66). Ei dad yntau oedd Richard Thomas Lewis, Fronfelen, a fu'n flaenor ym Madog hyd 1947, ac yn godwr canu yno.

Nodwn hefyd fod David Griffiths, Lluest Fach, wedi'i ordeinio'n flaenor yn 1947 a'i fod yntau wedi rhoi dros hanner can mlynedd o wasanaeth. Mae arnom ddyled fawr fel eglwys iddynt oll am eu cyfraniad.

*Marged Haycock*
*Madog*



Angharad Lewis gyda'r Parch. Carwyn Arthur, Llywydd Sasiwn y De, a'r Dr Rhidian Griffiths, Llywydd Henaduriaeth Ceredigion a Gogledd Penfro

# Cofio John Puleston Jones (1862–1925)

Doeddwn i erioed wedi clywed sôn am John Puleston Jones tan i mi ddechrau dysgu darllen *braille* a deall mai ef oedd yr un a ddyfeisiodd y cynllun *braille* Cymraeg. Seiliodd ef ei wyddor *braille* ar yr un Saesneg ac erbyn heddiw, mae ei wyddor ef wedi cael ei diweddaru i'w gwneud yn fwy cydnaws â Chymraeg cyfoes.



Ganed John Puleston Jones ar 26ain Chwefror 1862 yn Llanbedr Dyffryn Clwyd. Symudodd y teulu i'r Bala lle'r oedd gan ei dad fusnes fel saer ac adeiladydd. Collodd Puleston ei olwg trwy ddamwain pan oedd yn blentyn deunaw mis oed. Ond fe ddysgodd ei fam, Mary, iddo wneud cymaint ag a fedrai heb unrhyw gymorth. Pan dyfodd yn oedolyn, fe'i gwelid yn marchogaeth ceffyl ac yn teithio mewn trap a cheffyl ar hyd lonydd ei ardal. Teithiai hefyd ar drenau ar ei ben ei hun, a dywedai fod angel ar bob platfform lle disgynnai. Dysgodd y dull 'Moon' o ddarllen geiriau ac yna'n ddiweddarach yr wyddor *braille*. Defnyddiai deipiadur *braille* yn ogystal â theipiadur cyffredin.


Mynychodd yr Ysgol Brydeinig a'r Ysgol Ramadeg yn y Bala, a phan oedd yn 16 oed aeth i Goleg Methodistaidd y Bala, lle y disgleiriodd trwy ennill y marciau uchaf ar ddiwedd ei flwyddyn olaf yno ym 1881. Ar ôl treulio blwyddyn yn Ysgol y Deillion yng Nghaerwrangon, aeth gyda Syr Owen M. Edwards i Brifysgol Glasgow i astudio Athroniaeth, ac oddi yno yn 1884 i Goleg Balliol, Rhydychen. Bedair blynedd yn ddiweddarach, graddiodd gydag anrhydedd dosbarth cyntaf mewn Hanes Modern. Roedd ef yn un o'r saith a sefydlodd Gymdeithas Dafydd ap Gwilym yn 1886. Gyda Syr John Morris-Jones, aeth Puleston ati i safoni'r iaith Gymraeg gan sefydlu'i horgraff.

Dechreuodd bregethu yn 17 oed yn 1879 ac fe'i ordeiniwyd yn 1888. Derbyniodd alwad i Eglwys Saesneg, Princess Road, Bangor yn 1891. Priododd ag Annie Alun Jones (o'r Wyddgrug) yn 1890 a chawsant ddau o blant. Bu hefyd yn weinidog ar eglwysi Dinorwig, Penmount, Pwllheli, a Llanfair Caereinion, gan ymddeol yn 1923.

Roedd Puleston yn heddychwr a safodd yn gadarn yn erbyn y Rhyfel Mawr (1914–18), gan gyfrannu i gylchgrawn yr heddychwyr, *Y Deyrnas*. Pregethodd o'r pulpud yn erbyn y rhyfel, a daeth yn arweinydd ei enwad i'r heddychwyr yn y gogledd. Cyhoeddodd esboniad ar Epistol Iago yn 1899, ac yna yn 1924 ymddangosodd *Gair y Deyrnas*, sef casgliad o'i bregethau.

Roedd yn eilun ei genedl ar sail ei fywyd arwrol, ei amryfal ddoniau, ei fywyd dyngarol a'i gymeriad Cristnogol. Casglodd ei enwad deyrnged ariannol iddo ac urddwyd ef â gradd D.D. gan Brifysgol Cymru yn 1924.

Bu farw Puleston ar 21 Ionawr 1925, ac fe'i claddwyd ym mynwent Eglwys Crist, y Bala. Felly, ganrif yn union ar ôl ei farwolaeth, cofiwn am ei gymwynas, nid yn unig i ddeillion Cymru, ond hefyd am ei ran yn safoni'r iaith Gymraeg, a'i safiad fel heddychwr a Christion brwd.






Rhian Evans (fu'n casglu'r wybodaeth a'i chyflwyno yn rhifyn Ionawr o Bapur Gofalaeth Caerfyrddin a Bancyfelin

Cyflwyniad I ran o Feibl Boglynog yn y Gymraeg yn ôl dull 'Moon' o 1903

# Yn llinach y proffwydi

Yn ddigon eiddil ei golwg ond â dur yn ei chyfansoddiad, yn bwyllog, heb godi llais, gan bwyso a mesur pob gair yn ofalus, apeliodd yr Esgob Mariann Edgar Budde ar Arlywydd newydd yr Unol Daleithiau i weithredu trugaredd. Mynnai fod nifer fawr o bobl America, yn dilyn sefydlu'r oruchwyliaeth newydd, yn byw mewn braw, gan fod gwir berygl iddynt gael eu gyrru o'r wlad: hoywon, lesbiaid; unigolion trawsrywiol; pobl nad ydynt, yn ôl y gyfraith, yn ddinasyddion, ac sydd heb y dogfennau swyddogol i brofi hynny, ac nad ydynt yn euog o unrhyw drosedd. Felly hefyd filoedd o blant sy'n hynod bryderus rhag i'w rhieni gael eu dwyn oddi arnynt.



Llun: (NASA/Paul Alers - NASA Flickr, PD/ Parth Cyhoeddus)

Apeliodd yr esgob ymhellach ar i'r ffoaduriaid sydd wedi ceisio lloches yn America rhag rhyfel ac erledigaeth yn eu cynefin gael eu derbyn a'u hymgeleddu yn eu gwlad newydd. Ychwanegodd: "Y mae ein Duw yn ein dysgu i fod yn drugarog wrth y dieithryn, oherwydd yr oeddem ninnau ar un adeg yn ddieithriaid yn y wlad hon", geiriau sydd yn adleisio Deuteronomium 10:19: "Yr ydych chwithau i garu'r dieithryn, gan ichwi fod yn ddieithriaid yn yr Aifft."

Ac yn y modd hwn y terfynodd yr esgob ei phregeth: "Bydded i Dduw roddi inni nerth a dewrder i anrhydeddu urddas pob person dynol, i lefaru'r gwir mewn cariad, i rodio'n ostyngedig gyda'n gilydd a chyda'n Duw, er daioni i holl bobl ein gwlad a'n byd."

Roedd yr olwg sarrug ar wyneb yr Arlywydd yn ystod y bregeth yn arwydd o'i anfodlonrwydd chwyrn â'r cynnwys, ac yn dilyn y gwasanaeth cafodd gyfle i fynegi ei ddicter. "Nid oedd y gwasanaeth yn un da, ac fe all yr esgob wneud yn llawer gwell na hyn. Daeth â'i heglwys i mewn i'r byd gwleidyddol, a hynny mewn modd anurddasol. Roedd tôn ei llais yn gas, heb fod yn gymhellgar nac yn glyfar."

Cafwyd ymateb hyd yn oed yn llymach. Bu'r Gweriniaethwr Mike Collins yn galw ar i enw'r Esgob Budde gael ei ychwanegu at restr y sawl y bwriedir eu halltudio o America. Mynnai eraill nad oedd gan yr esgob, a hithau'n wraig, unrhyw awdurdod i gyhoeddi'r hyn a wnaeth. A bu sylwadau Jack Graham, gweinidog gyda Bedyddwyr y De, hyd yn oed yn finiocach: "Canfyddwch wyneb a gwrandewch ar lais delfrydolwraig *woke* sy'n arwyddo'n glir y rheswm pam y mae'r eglwysi gwrthgiliol [*apostate*] yn marw ac yn farwaidd. Dyma grefydd ar ei gwaethaf. Dim Iesu. Dim Beibl. Dim dyfodol."

Rhag inni gael ein haflonyddu'n llwyr gan y fitriol uchod, mae'n dda meddwl fod barn lawer callach a mwy cymhedrol wedi amlygu ei hun. Eisoes y mae dros 40,000 wedi arwyddo deiseb yn cefnogi anogaeth yr esgob, gan ddadlau fod ei geiriau'n cynrychioli gwerthoedd y mwyafrif o Gristionogion America – ffaith y mae rhethreg Trump, sy'n rhannu barn ac yn rhwygo cymunedau, yn ceisio'i sgubo o dan y carped. Yn wir, y mae rhywrai o'r farn y gall agwedd Trump, ac yntau'n honni bod llaw ragluniaethol Duw i'w chanfod y tu ôl i'w ethol am yr eildro, ysgogi, difrifoli ac uno Cristionogion prif ffrwd America, mewn ffordd nas gwelwyd er degawdau. Gobeithio'n wir y try hyn yn ffaith, ac i'r Arlywydd ddeall yn bendant ddigon nad pyped yn ei law mo'r Eglwys Gristnogol, ac nac ydyw ychwaith yn was bach sy'n ufuddhau yn ddigwestiwn i unrhyw archiad o'i eiddo.

Myn Trump (siŵr o fod er mwyn cadw'r eithafwyr crefyddol ar ei ochr) ei fod yn pwyso'n drwm ar y Beibl. Rhoes ei law arno adeg seremoni ei neilltuo i'r arlywyddiaeth, a chofir am y tro hwnnw y safodd yn eofn o flaen eglwys Sant Ioan a chodi'r Beibl yn uchel i'r awyr. Pe na bai ond yn ei ddarllen, byddai'n gweld fod ynddo draddodiad hir am bobl Dduw yn herio'r awdurdodau, yn sefyll yn gadarn yn erbyn anghyfiawnder, yn cymryd plaid y gwan yn erbyn y tlawd a'r diamddiffyn, gan fod yn barod i dalu'r pris am wneud hynny. Wele'r proffwyd Nathan yn cyhuddo'r brenin Dafydd, yn dilyn ei odineb â Bathseba, "Ti yw y gŵr" (II Samuel 12:7), ac Elias, a elwir gan y brenin Ahab yn "gythryblwr Israel" (I Brenhinoedd 18:17), yn herio'r brenin am iddo, o dan ddylanwad y frenhines, droi ei bobl at Baal, a chodi trethi ar y wlad er mwyn cynnal y gau broffwydi a gynrychiolai'r grefydd estron. Fe'u heriodd, a'u gorchfygu yn yr ornest fawr ar fynydd Carmel – ac Elias, o'r herwydd, yn gorfod ffoi am ei einioes rhag cynddaredd Jesebel (I Brenhinoedd: 18:16–40).

Ni allai Amaseia, offeiriad Bethel, a oedd eisoes wedi crybwyll wrth y brenin Jeroboam fod Amos yn ŵr peryglus, oddef datganiadau'r proffwyd o Tecoa ym mynydd-dir Jwda. Yn union fel y mae rhywrai heddiw yn dymuno gyrru'r Esgob Budde o'r wlad, felly hefyd y dynged a ddymunai i Amos: "Dos ymaith, weledydd; ffo i wlad Jwda, ennill dy damaid yno, a phroffwyda yno" (Amos 7:12). Taranai Amos yn erbyn y gwyrdroi ar gyfiawnder a ddigwyddai yn y llysoedd; am gyflwr truenus y tlodion a orthrymwyd gan y cyfoethogion oedd â'u dull o fyw yn afrad ac anghymesur; ac yn erbyn crefydd nad oedd ond yn ffasâd ffug ac arwynebol. Ni allwn lai na meddwl fod tinc cyfoes i hyn i gyd.

"Dim Iesu. Dim Beibl", meddai'r Parchedig Jack Graham am y bregeth yn Washington. Darllened y Bregeth ar y Mynydd ac fe wêl fod apêl yr esgob yn gyfan gwbl seiliedig ar eiriau Iesu, sy'n annog cariad nid yn unig at gymydog ond hefyd at elyn; trugaredd at gyd-ddyn fel y mae Duw yn drugarog wrth ei blant; maddeuant i eraill fel y mae Duw yn maddau i ni. A pheidied â thybio am eiliad fod Iesu yn berson anwleidyddol, dof. Pan rybuddiwyd ef gan rai Phariseaid i fynd i ffwrdd yn ddi-oed gan fod "Herod â'i fryd ar dy ladd di", fe'u siarsiodd i fynd a dweud "wrth y cadno hwnnw" na fedrai neb na dim ei atal rhag cyflawni ei waith. Oherwydd ei brotestiadau, gwleidyddol a chrefyddol, roedd y groes, yn y diwedd, yn anochel.

Un tro, gofynnwyd i Dr R. W. Dale, radical, un o bleidwyr yr "efengyl gymdeithasol" (y bu cymaint beirniadaeth arni), a gweinidog eglwys enwog Carr's Lane, Birmingham, yn niwedd y 19eg ganrif: "Dr Dale, a fydd gwleidyddiaeth yn y nefoedd?" "Na fydd", oedd ei ateb, "ond ni bydd yno ychwaith blant yn newynu." A thra bo plant ar eu cythlwng, y diniwed yn cael eu gormesu a'u lladd yn ddidostur, a ffoaduriaid yn ceisio ymgeledd, ni all (ac yn sicr, ni ddylai) yr eglwys fod yn fud. Meddai'r Archesgob Tutu: "Fy Nghristionogaeth yn hytrach na'm gwleidyddiaeth a'm hargyhoeddodd fod *apartheid* yn anfoesol." Dealled yr Arlywydd Trump, a phob unben tebyg iddo, na fedr ddistewi llais y sawl a fyn gyhoeddi, "Fel hyn y dywed yr Arglwydd".

*Desmond Davies*

S4C *Dechrau Canu, Dechrau Canmol*
**Sul, 9 Chwefror – dim rhaglen**

BBC radio cymru *Caniadaeth y Cysegr*
**Sul, 9 Chwefror, am 7:30yb a 4:30yp**
Amrywiaeth o emynau yng nghwmni Geraint Morse

*Oedfa Radio Cymru*
**Sul, 9 Chwefror, am 12:00yp**
Oedfa ar Ŵyl Fair y Canhwyllau dan ofal Natalie Morgan, Coleg y Bedyddwyr, Caerdydd

# Fy wythnosau cyntaf yn Japan




Cyfarfod o’r caffi ar gyfer rhai sy’n dychwelyd a chyfle i flasu’r te



Yr olygfa o’m stafell yn Tokyo

Helô! Tomos sydd yma, a dwi dair wythnos i fewn i fy mlwyddyn yn Japan yn gweithio efo OMF!

Ar ôl cyrraedd y Share House yn Tokyo lle byddaf yn byw am y flwyddyn nesaf yma, dwi wedi bod yn symud i fewn i’r stafell fydd yn gartref imi a dod i nabod ychydig o’r 45 arall dwi’n rhannu’r llety gyda nhw! Dwi bron â gorffen llenwi’r holl waith papur sydd ei angen er mwyn cael byw yn Japan, a dwi’n ffodus fod gen i gyd-weithwyr sy’n barod iawn i helpu i gyfieithu tipyn o’r gwaith papur pan mae Google Translate yn methu! Mae dod i nabod fy nghyd-weithwyr wedi bod yn bleser llwyr, mae pawb yn OMF Rhyngwladol (cymdeithas o Gristnogion byd-eang ag angerdd dros Ddwyrain Asia sy’n gofalu amdanon ni) wedi bod yn hynod o glên!

Dwi wedi cael fy herio i ddysgu Japaneeg cyn gynted â phosibl. Mae’n bwysig ar gyfer bywyd bob dydd (dwi wedi prynu pethau anghywir yn barod mewn camgymeriad!), ond hefyd er mwyn gallu dangos cariad a pharch at y bobl dwi’n byw ac yn gweithio gyda nhw. Dwi wedi darganfod fod cenhadon tymor hir OMF yn treulio dwy flynedd yn dysgu Japaneeg. Fe wnes i ddysgu chydig ar yr iaith pan oeddwn i’n dal yng Nghymru’n paratoi, ac er fy mod i’n brysur, dwi’n gobeithio gallu gwella fy sgiliau iaith yn gyflym! Mae fy nghapel yma yn un dwyieithog, felly er fy mod i’n deall y pregethu, dwi eisiau gallu cyfathrebu’n well gyda’r mynychwyr Japaneaidd sydd ddim yn hyderus yn eu Saesneg!

Dwi wedi cael cyfle i wasanaethu yn barod, a dwi wedi ymuno ag ambell Zoom lle rydym yn trafod gair Saesneg yr wythnos ac wedyn adnod o’r Beibl! Fi sy’n arwain yr adran gair newydd yr wythnos yma, felly mi faswn i’n gwerthfawrogi gweddi!

Dwi hefyd wedi bod yn mynd i dŷ’r cwpwl sydd yn rhedeg y gwaith yma yn Tokyo efo’r rhai sy’n dychwelyd o dramor, a hynny ar gyfer coginio llwythi o ddanteithion gwahanol ar gyfer caffi’r dychwelwyr misol! Cyfle ydy’r caffi misol i gyfarfod ac annog y rhai sy’n dychwelyd i Japan ar ôl bod dramor ac sydd wedi cael rhywfaint o brofiad o ffydd yn Iesu Grist yn ystod eu cyfnod dramor, efallai, neu wedi dod yn Gristnogion.

Dychmygwch berson o Japan sydd wedi byw dramor am nifer o fisoedd neu rai blynyddoedd. Maen nhw wedi cyfarfod Cristnogion, mynd i eglwysi, wedi clywed yr Efengyl, ac efallai hyd yn oed wedi rhoi eu bywydau i Iesu Grist. Yna, maen nhw’n dychwelyd i Japan ac yn sylweddoli eu bod nhw wedi newid, ond nad ydy Japan ddim. Mae yna angen am ffrind sy’n Gristion i gyd-gerdded efo nhw ar eu taith a’u helpu i ddod o hyd i le gallan nhw berthyn iddo.

Fel mae’n dangos yn y lluniau, thema ein caffi y mis hwn oedd Blasu Te. Daeth llawer at ei gilydd a llwyddais innau i ddod i nabod llawer o bobl Japaneaidd ag amrediad o brofiad o’r ffydd Gristnogol. Dwi wedi cael fy ngwahodd i fedydd un ohonynt mis nesaf. Bydd hyn yn bleser ac yn rhywbeth i edrych ymlaen ato!

Dwi’n ddiolchgar iawn fod Duw drwy ei bobl wedi darparu mor hael ar gyfer fy angen ariannol fel fy mod yn gallu byw yma’r flwyddyn hon, ac wedi fy helpu i setlo i mewn yn gyflym! Mi faswn i’n gwerthfawrogi gweddi ar i fwy o ddynion ddod i’r gweithgareddau rydyn ni’n eu cynnal, ac i mi allu cyfarfod yn uniongyrchol gyda nhw ar gyfer astudiaethau Beiblaidd.

*Tomos Edwards, Llanuwchllyn a Japan*

(Mae Tomos yn treulio blwyddyn yn Japan dan faner y mudiad cenhadol OMF)

Gallwch ddal i gyfrannu at gostau Tomos, os hoffech, ar y ddolen: www.stewardship.org.uk/partners/tomos


## Cyflwyno llyfrau yn Nhudweiliog

Mae perthynas hynod o dda rhwng Ysgol a Chapel Tudweiliog, Llŷn. Pan gynigiwyd grant gan The Payne Charitable Trust i Glwb Plant yr eglwys, penderfynwyd gwario’r arian ar Feiblau i holl blant yr ysgol. Cyflwynwyd dau ar bymtheg o Feiblau gwahanol hefyd i’r llyfrgell. Diolch am garedigrwydd John & Mary Payne o’r elusen am y rhodd werthfawr. Mae’r ddau’n aelodau yn Eglwys Bresbyteraidd Cymru ym Mae Penrhyn.



# *Llyfr y Pregethwr*

**Yn ystod y tymor hwn byddwn yn astudio Llyfr y Pregethwr gyda'n gilydd dan arweiniad y Parch. Ddr Alun Tudur, gan ddefnyddio cyfrol y diweddar Gareth Lloyd Jones, *Dehongli Bywyd Ruth a Llyfr y Pregethwr* yn ganllaw.**




**Astudiaeth 5: Doethineb ac ynfydrwydd**

**Llyfr y Pregethwr 1:12–2:26 (parhad)**

Oherwydd ei aflwyddiant wrth geisio atebion yn archwilio pleser y mae'r Pregethwr, am y tro, yn rhoi'r gorau iddi. Ond nawr, mae'n troi ei olygon unwaith eto at ddoethineb ac ynfydrwydd: y ddwy ffordd o fyw a ystyriodd yn gynharach cyn eu diystyru fel ymlid gwynt (1:17–18). Wrth eu cymharu'n feirniadol (2:12–13), fe ddaw i'r casgliad y tro hwn fod doethineb yn rhagori ar ynfydrwydd, gan fod y doeth yn mynd trwy fywyd "yn gwybod ble maen nhw'n mynd, ond mae ffyliaid yn cerdded mewn tywyllwch" (beibl.net).

Mae cyferbynnu'r doethion â'r ffyliaid yn destun cyson mewn Llên Doethineb. Ceir amryw o enghreifftiau yn Llyfr y Diarhebion, e.e.

> Mae plentyn doeth yn gwneud ei dad yn hapus;
> ond mae plentyn ffôl yn gwneud ei fam yn drist. (Diarhebion 10:1)
>
> Mae pobl ddoeth yn rhannu gwybodaeth;
> ond dydy ffyliaid ddim yn gwneud hynny. (Diarhebion 15:7)

Eto, er y gwahaniaethau sydd rhyngddynt, nid oes unrhyw arwyddocâd i hynny wyneb yn wyneb â marwolaeth. Dywed, "Ond wedyn, yr un dynged sy'n disgwyl y naill a'r llall." (2:14) Mae'r ddau fel ei gilydd yn mynd i ebargofiant. Felly, pa elw sydd i unrhyw un o fod yn ddoeth? Ei obaith oedd y byddai tynged y doeth yn wahanol i dynged y ffôl. Ond nid yw'n ymddangos fod hyn yn wir. Yn raddol, mae'n suddo wrth ymresymu i gors o siom a rhwystredigaeth – rhywbeth all ddigwydd i ninnau wrth ystyried y byd a'r bywyd hwn. Yn adn.17 mae'n dweud ei fod yn casáu'r bywyd hwn oherwydd bod popeth yn y pen draw yn ddiystyr. Onid oes tueddiadau pruddglwyfus iawn yn perthyn i natur y Pregethwr? Druan ohono.

I wneud pethau'n waeth, gŵyr y bydd rhaid iddo adael ei eiddo i'r un a ddaw ar ei ôl, "A phwy a ŵyr fydd y person hwnnw'n ddoeth neu'n ffŵl? Ond bydd e'n dal i reoli'r holl gyfoeth dw i wedi gweithio mor galed amdano a defnyddio fy noethineb i'w gael. Dydy hyn chwaith yn gwneud dim sens!" (Pregethwr 2:19)

Mae cors ei feddyliau'n tywyllu fwyfwy wrth iddo ofyn y cwestiwn, "Beth mae rhywun yn ei ennill ar ôl yr holl ymdrech diddiwedd?" Ac fe etyb ei gwestiwn ei hun gyda'r sylw digalon: "Dim ond pryder a rhwystredigaeth drwy'r dydd, ac wedyn methu ymlacio yn y nos hyd yn oed! Dydy e'n gwneud dim sens!" (2:23)

**Rhyngu bodd Duw**

Yna ar drawiad amrant, mae'r awyrgylch yn newid. Am eiliad, fe gawn fflach o rywbeth gwahanol i'r gweithiwr caled sy'n cael ei lethu gan ofid a phryder. Yma, mae'r pwyslais ar werthfawrogi pleserau syml bywyd: "Y peth gorau all rhywun ei wneud ydy bwyta, yfed a mwynhau ei waith. A dyma fi'n sylweddoli mai Duw sy'n rhoi hyn i gyd i ni." (2:24)

Rhoddion gan Dduw yw bwyd a diod a gwaith, ynghyd â'r gallu i'w mwynhau. Trwyddynt, daw'r crediniwr i gysylltiad â'r rhoddwr y tu ôl i'r rhodd. Mae Duw yn rhoi 'doethineb, deall a llawenydd i'r sawl sy'n ei blesio' (2:26), hynny yw, y sawl sy'n derbyn ac yn gwerthfawrogi ei roddion. Ond i'r sawl sy'n gwrthod cydnabod Duw, y cyfan fydd yn ei wneud fydd pentyrru eiddo'n ddiystyr heb unrhyw fwynhad, a'r diwedd fydd ei basio ymlaen i rywun fydd yn plesio Duw.

**Be 'dych chi'n feddwl?**

1. O ystyried y drygioni a'r dioddef sydd yn y byd, ydych chi'n cytuno â'r Pregethwr na 'ellir unioni yr hyn sydd gam'? Does dim modd sythu rhywbeth sydd wedi'i blygu! (Pregethwr 1:15)

2. Mae athrawiaeth cosb a gwobr yn greiddiol i Gyfraith Moses. Ydych chi'n credu bod Duw'n cosbi'r drwg ac yn gwobrwyo'r da yn y bywyd hwn?

3. A allwch chi gydymdeimlo ag anobaith dwfn y Pregethwr wrth edrych ar gyflwr dynoliaeth heddiw? Sut mae gwrthweithio'r anobaith hwn?




Cliciwch ar y poster uchod er mwyn gweld yr adnoddau sydd ar y wefan, neu ewch i www.gair.cymru

# O'r galon

**Llawenhewch!**

"Am hynny, fy nghyfeillion, anwyliaid yr wyf yn hiraethu amdanynt, fy llawenydd a'm coron, safwch yn gadarn fel hyn yn yr Arglwydd, fy nghyfeillion annwyl … Llawenhewch yn yr Arglwydd bob amser; fe'i dywedaf eto, llawenhewch." (Philipiaid 4:1, 4 BCND)

O edrych ar ffrwyth yr Ysbryd yn Galatiaid 5:22, pa drefn fyddech chi'n ei osod arnyn nhw? Nid bod yna rai yn deilyngach na'i gilydd, ond tybed ydy safle 'llawenydd' yn yr ail le yn annisgwyl? Mae'n nodweddiadol meddwl bod Paul, a ddioddefodd gymaint dros ei Arglwydd, yn meddwl am lawenydd o flaen y rhinweddau sy'n dilyn. Pam, tybed?

Fe edrychwn ar adran o'i lythyr at y Philipiaid sy'n dangos sut mae'r Ysbryd yn gweithio (cofiwch mai rhywbeth a gynhyrchir yw ffrwyth) llawenydd yn mywyd y credadun.

**Darllenwch Philipiaid 4:1–9** ac ystyriwn o ble daw ein llawenydd.

**Testun llawenydd** (adn. 1)
Testun llawenydd i Paul yw'r 'holl saint yng Nghrist Iesu sydd yn Philipi' (1:1). Wrth feddwl amdanyn nhw mae hiraeth yn codi arno, a balchder gwirioneddol ohonyn nhw: 'fy llawenydd a'm coron'. Gwelwn felly sut mae cofio am eraill yng ngwaith y deyrnas a'r dystiolaeth o Dduw ar waith ynddyn nhw yn esgor ar lawenydd.

**Byw'n gytûn** (adn. 2)
Ond nid llawenydd cysetlyd mohono. Mae'n dymuno cynnydd iddyn nhw ac yn meddwl am y ddwy sydd ddim yn cyd-dynnu, gan eu hannog i fyw'n gytûn. Mae yma adlais o'i apêl yn 2:1–10 ar iddyn nhw gyflawni ei lawenydd. Nid absenoldeb cynnen mo hyn; yn hytrach mae byw'n gytûn yn creu'r amgylchiad perffaith i beri i lawenydd flaguro ac aeddfedu.

**Enwau yn llyfr y bywyd** (adn. 3)
Mi gredaf fod y rheswm yma dros lawenydd y saint yn anghyfforddus i nifer ohonom. Ond rwyf am eich herio, am mai Iesu ei hun sydd yn ein hannog i lawenhau yn hyn: "Eto, peidiwch â llawenhau yn hyn, fod yr ysbrydion yn ymddarostwng i chwi; llawenhewch oherwydd fod eich enwau wedi eu hysgrifennu yn y nefoedd" (Luc 10:20).

Oni ddylem deimlo a mynegi testun gorfoledd fod i ni ran, drwy ras a ffydd, yn yr hyn a gyflawnodd Iesu drwy ei farw a'i atgyfodi er ein mwyn? Onid haerllugrwydd o'r mwyaf yw peidio â choleddu'r gwirionedd hwn yn ddwfn yn fy nghalon, a chredu rywsut fod angen mwy na marw Mab Duw yn fy lle, i sicrhau fy enw yn llyfr y bywyd? Gwir ladrad yr un drwg yw'r diffyg yma o lawenydd ynom heddiw.

**Bob amser** (adn. 4)
Cawsom rai dyddiau rhewllyd yn ddiweddar, ac un ffordd o sicrhau nad yw pibell ddŵr yn byrstio yw gadael iddi lifo ychydig yn barhaus.

"Llawenhewch yn yr Arglwydd bob amser; fe'i dywedaf eto, llawenhewch." Nid ceisio gwên ffals a wal i guddio ein gwir deimladau yw anogaeth Paul yma. Yn hytrach, mae'n ein hatgoffa o darddle ein llawenydd, ac ar i ni gadw'r cyflenwad ar agor ac yn llifo. A yw ein cyflenwad o lawenydd wedi rhewi, tybed? Fe ddylai myfyrio ar yr adran hon ei ddadmer yn dyner.

**Dangos ein hynawsedd** (adn. 5)
Credaf y dylem geisio adfer mwy o ddefnydd o'r gair 'hynawsedd' ('arafwch' yn BWM, 'caredig' yn BNET). Nid gwendid, na byw megis mat croeso, mo hyn. Yn hytrach, mae ein safle yng Nghrist yn rhoi i ni'r fath ddiogelwch fel nad oes angen inni fod yn fyrbwyll, neu'n angharedig, ond yn hynaws. Fel y dywed y gwynfyd cyntaf, mae i dlodion yn yr ysbryd feddiant ar deyrnas nefoedd. Yn wahanol i'r agweddau eraill yn yr adran, rhywbeth sy'n deillio o'n llawenydd i'w arddangos gerbron y byd yw ein hynawesdd ('reasonableness', ESV).

**Mae'r Arglwydd yn agos** (adn. 5)
Datganiad syml a phwerus yw'r nesaf, a'r olaf gen i tan tro nesaf.

"Peidiwch, a gwybyddwch mai myfi sydd Dduw," (Salm 46:10) meddai'r Salmydd. "Mae'r Arglwydd yn agos," meddai Paul. Addewid Iesu yn ei Gomisiwn Mawr oedd y byddai gyda ni yn wastad, hyd y diwedd.

Myfyriwch ar y fraint sydd gennym fod Iesu ei hun gyda ni'n barhaus. Onid yw'n destun llawenydd? Ond mae yna fwy: mae Paul yn ein hannog i godi ein pennau i ddisgwyl ei ymddangosiad a dyfodiad ei deyrnas mewn nerth. Heb ymhelaethu, dyma un o'r prif resymau pam y medr Paul lawenhau ymhob amgylchiad.

Rwy'n ysu i barhau i fyfyrio ar fy llawenydd a chloddio am drysorau yng ngweddill yr adran. Ond bydd raid aros tan y tro nesaf, pryd y gwelwn fod yr hyn sy'n peri llawenydd hefyd yn diogelu tangnefedd ynom. Peidiwch â disgwyl amdanaf fi – darllenwch adnodau 6–9 ac ymlaen at weddill y bennod.

"Fe'i dywedaf eto, llawenhewch."

*Hywel Rhys Edwards*
*Llandybïe*

(Dymunwn yn dda i Hywel a Julie Edwards yn eu cartref newydd yn ardal Llandybïe ar ôl eu blynyddoedd yn y Parc, ger y Bala)

# Llanw 25 – Llangrannog, 21–25 Ebrill

Eleni ein thema fydd "Dathlu Iesu, ein Proffwyd, Offeiriad a Brenin".

Fe fydd y Parchg Jonathan Thomas yn arwain tair sesiwn yn y bore yn edrych ar y tair agwedd yma o berson Iesu.

Rydym hefyd wedi trefnu i Rachel Radbourne a Joseff Edwards arwain ein hoedfaon nos Fawrth a nos Iau, gydag oedfa wedi ei threfnu yn arbennig ar gyfer yr ardal leol ar y nos Fercher.

Bydd darpariaeth lawn ar gyfer plant ac ieuenctid gydol yr ŵyl fel arfer.

Am ragor o fanylion a ffurflen archebu, ewch i'r wefan: [https://llanw.org/llanw-25/](https://llanw.org/llanw-25/)



# Ymgyrchu dros Heddwch Ddoe a Heddiw



Trwy garedigrwydd Eglwys y Bedyddwyr, Tonyfelin, Caerffili, cynhaliwyd y cyntaf o'r cyfarfodydd cyhoeddus i nodi canmlwyddiant Apêl Heddwch Eglwysi Cymru i eglwysi Unol Daleithiau'r America yno ar Sul, Ionawr 26. Dyma union ganmlwyddiant marw un o gymwynaswyr mawr heddwch yr 20fed ganrif, y Parch. Gwilym Davies, gafodd ei eni ym Medlinog. Gyda chefnogaeth cymdeithasau hanes lleol Gelligaer a Merthyr Tudful a'n partneriaid yng Nghanolfan Materion Rhyngwladol Cymru (y Deml Heddwch), bu pedwar am siarad am gyfraniad arbennig Gwilym Davies o ran heddwch ac eciwmeniaeth, a sut all hynny fod yn sbardun i ninnau heddiw. Bu Aled Eirug yn esbonio Gwilym yng nghyd-destun y mudiad heddwch cyfoes ehangach; Angharad Wyn Jones o Urdd Gobaith Cymru yn cyflwyno testun a baratowyd gan Siân Lewis am ei gyfraniad i'r Neges Ewyllys Da sy'n parhau hyd heddiw; Siân Rhiannon yn sôn am gyfraniad arbennig ei wraig, Mary Ellis; a Gethin Rhys yn cyflwyno hanes Apêl yr Eglwysi, taith Gwilym Davies i'r Unol Daleithiau ym 1925 a'r cofio a arfaethir ar gyfer 2025. Mae fideo o'r sesiwn (a gynhaliwyd yn Gymraeg) yma a rhagor o wybodaeth ar wefan Cytûn.

(O Fwletin Polisi Cytûn, Chwefror–Mawrth 2025; https://www.cytun.co.uk/bwletin-polisi-chwefror-mawrth-2025/)

Eglwys Bresbyteraidd Cymru

## Henaduriaeth Ceredigion a Gogledd Penfro

## Galluogwr Cenhadol ar gyfer ardaloedd gwledig de'r Henaduriaeth

Mae'r Henaduriaeth yn chwilio am unigolyn i ysgogi cenhadaeth a hyrwyddo'r dystiolaeth Gristnogol yng nghefn gwlad De Aberteifi a Gogledd Penfro.

**Oriau:** 35 awr yr wythnos
**Cytundeb:** 3 blynedd yn y lle cyntaf, gyda'r 6 mis cyntaf yn gyfnod prawf.
**Cyflog:** Band 31– 35 (£32,150– £34,043) ar raddfa cyflog EBC neu uwch, gan ddibynnu ar lefel cymwysterau a phrofiad. Bydd cyfle i ymuno â Chynllun Pensiwn EBC.
**Lleoliad:** Gweithio o gartref. Fodd bynnag, fe all y bydd gofyn i chi weithio o leoliadau eraill o bryd i'w gilydd.

Mae'r swydd hon yn amodol ar ddatgeliad DBS manwl a dau eirda boddhaol, ac mae gofyniad galwedigaethol Cristnogol a'r iaith Gymraeg yn berthnasol ar gyfer y swydd hon.

Am fwy o wybodaeth, ac am ffurflen gais, cysylltwch ag:
e-bost – swyddfa.office@ebcpcw.cymru; ffôn: 02920 627465

**Dyddiad cau:**
**22 Mawrth 2025, 4pm.**

Hysbyseb swydd

## Ysgrifennydd yr Ymddiriedolaeth

Addoldai Cymru
Welsh Religious Buildings Trust

**Lleoliad – Cymru**
**Oriau Gwaith – 22.5 awr**
**Math o Swydd – rhan-amser**
**Dyddiad Cau – 21ain Chwefror 2025**

**Rhagor o fanylion**
Ymddiriedolaeth Addoldai Cymru
Ysgrifennydd yr Ymddiriedolaeth
Contract tymor penodol, 22.5 awr yr wythnos – (gellir ei adnewyddu'n flynyddol, yn dibynnu ar gyllido)

Mae Addoldai Cymru yn elusen a sefydlwyd i feddiannu detholiad o gapeli a thai cwrdd yng Nghymru sydd o arwyddocâd hanesyddol a/neu bensaernïol, sy'n rhan o hanes adeiladu capeli ac Anghydffurfiaeth yng Nghymru ac sy'n werthfawr i'w cymunedau lleol. Yn ogystal, mae'r Ymddiriedolaeth yn hyrwyddo ac yn annog cadwraeth a dehongli capeli a hanes capeli anghydffurfiol.

Rydym yn gyfrifol am 11 o gapeli a thai cwrdd hyd yn hyn, ac rydym yn symud ymlaen â thri arall. Cawn ein cefnogi gan grant refeniw bach gan Lywodraeth Cymru (trwy Cadw), ond rydym hefyd yn dibynnu ar ewyllys da ein cefnogwyr, trwy aelodaeth, mynychu digwyddiadau a rhoddion.

Rydym yn chwilio am ysgrifennydd i fod â chyfrifoldeb rheolaethol dros yr Ymddiriedolaeth ac i sicrhau ei gweithrediad effeithiol ac effeithlon o fewn y gyllideb, polisïau a chyfarwyddyd fel y'u pennir gan yr Ymddiriedolwyr. Bydd y dyletswyddau'n cynnwys rheoli materion ariannol a gweinyddol yr Ymddiriedolaeth o ddydd i ddydd, goruchwylio gwaith cynnal a chadw'r adeiladau/tiroedd, a datblygu ein gweithgareddau cysylltiadau cyhoeddus.

Rydym yn chwilio am rywun sydd ag:

- ymwybyddiaeth a gwerthfawrogiad o ddiben yr Ymddiriedolaeth
- y gallu i gyfathrebu'n effeithiol yn Gymraeg a Saesneg (mae sgiliau Cymraeg ysgrifenedig yn ddymunol)
- sgiliau TG datblygedig a dealltwriaeth o gymwysiadau Microsoft 365/Office a meddalwedd fel BOX, XERO ac IN DESIGN
- sgiliau cyfathrebu ysgrifenedig a llafar rhagorol
- y gallu i gymryd cyfrifoldeb ac i ddefnyddio eich menter eich hun, ac i drefnu a blaenoriaethu llwyth gwaith heriol er mwyn sicrhau amcanion hirdymor a thymor canolig
- profiad o reoli cyllidebau a chyfrifon ac ymdrin â mecanweithiau cyllido a gweithdrefnau ymgeisio am grantiau

Cyfeiriwch at y swydd-ddisgrifiad sydd i'w gael yma: https://welshchapels.wales/support-us/staff/swydd-newydd-new-post-ysgrifennydd-yr-ymddiriedolaeth-trust-secretary/

am ragor o wybodaeth, a danfonwch eich CV ynghyd â manylion pam rydych yn meddwl eich bod yn addas ar gyfer y swydd.

Cyflog a Buddion:

Cyflog o £24,132.60 y flwyddyn (£40,221.00 pro rata, pwynt 32 ar y golofn gyflog ar raddfa gyflog awdurdodau lleol y Cyd-gyngor Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Llywodraeth Leol) a 17 diwrnod o wyliau â thâl ynghyd â gwyliau cyhoeddus. Bydd cyfraniadau o 6% o'r cyflog gros yn cael eu talu tuag at gynllun pensiwn cymeradwy.

Rydym wedi ymrwymo i gyfle cyfartal i'r holl staff ac anogir ceisiadau gan unigolion heb ystyried oedran, anabledd, rhyw, ailbennu rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, a phriodas a phartneriaethau sifil.

Dyddiad Cau: 21ain Chwefror 2025

Mae Addoldai Cymru yn cadw'r hawl i gau'r swydd wag hon yn gynnar.

Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru.
Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr *Cenn@d* yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteraidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru. Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:
huw@cennad.cymru | aled@ysgolsul.com
www.cennad.cymru CennadCymru @CennadCymru